

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 4 GORFFENNAF 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Jackie Bird, Ken Tams, Dave Ritchie, Nick Smith, Bob Barton (o 8.45 ymlaen) a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Tim Baker a Rhian Jones.

1A. YMDDISWYDDIAD.

Dyweddodd y Clerc ei fod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig fod Constance Atwill wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor. Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc anfon llythyr diolch i Constance am ei chyfraniad i'r Cyngor Cymuned yn ystod ei thymor swydd. Mae'r Clerc wedi trefnu'r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol ynglŷn â'r sedd wag.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Dim datganiad wedi ei dderbyn.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 3 Mai a 4 Mehefin 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Cafwyd cadarnhad mai'r Cyng. Dave Ritchie yw cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd ar "Bwyllgor Aelodau Lleol a Chynghorau Cymunedol Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy".

B. Diweddariad ynglŷn â Neuadd y Pentref:-

1. Mae'r dudalen Neuadd Bentref sydd ohoni ar wefan Cyngor Cymuned Llanbedr wedi ei dileu er mwyn i Bwyllgor Neuadd y Pentref gael creu gwefan gyfoes.
2. Mae dyfynbrisiau'n cael eu trefnu i gael hysbysfwrdd newydd yn lle'r un presennol.
3. Mae'r gwair wedi ei dorri a'r chwynnu angenrheidiol wedi ei wneud erbyn hyn.

5. DIWEDDARIAD YNGLŷN AG EGLWYS HYNAFOL ST. PEDR.

Gohirio tan y cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd y Cyng. Rhian Jones yn bresennol.

6. DIWEDDARIAD YNGLŷN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL.

A. Ar gyngor "Pub is the Hub", comisiynwyd Fleurets i adrodd ar hyfywedd y Griffin o ran lleoliad ac amodau'r farchnad gyfredol. Cyflwynir yr adroddiad yn y cyfarfod yma o'r Cyngor. Roeddem yn falch fod Fleurets o'r farn fod y dafarn yn hyfyw ac y gall fod yn fenter lwyddiannus a phroffidiol. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn heriol, ond maent yn ddibynnol ar y disgwyliad y bydd tenant sydd â phrofiad eang mewn gwerthiant gwlyb a sych yn cael ei apwyntio. Mabwysiadodd yr adroddiad gan y grŵp rheoli. Byddai gwahanrediad yn y rhent a delir i'r perchennog, sy'n hanfodol ar gyfer yr adeilad yn ei gyflwr presennol, a'r rhent a godir ar denant ar ôl adnewyddu. Bydd y gwahanrediad hwn yn sail i'r elw fydd yn cael ei ddychwelyd yn raddol i'r gymuned yn dilyn cynnig cyfranddaliad llwyddiannus

B. Mae ein cais i'r Gymdeithas Budd-dal Cymunedol wedi ei dderbyn gan Co-op Cymru, ac mae'n cael ei brosesu.

C. Mae trafodaethau wedi cychwyn dros gytundeb "Penawdau'r Telerau" rhwng Sian, y perchennog, a'r grŵp rheoli.

D. Rydym yn gobeithio lansio ein cynnig cyfranddaliadau o fewn y mis nesaf. Nid yw ein targed ar gyfer yr adnewyddu wedi'i benderfynu'n derfynol eto, ond rydym yn cysidro £150,000 – £200,000.

E. Yn dilyn cais at y Plunket Foundation, roeddem yn falch iawn o ddeall ein bod yn gymwys ar gyfer "cymorth cynllunio gweithredu a ariennir yn llawn". Bydd hyn yn cael ei ariannu gan yr Esmee Fairbairn Foundation, ac rydym eisoes wedi cael cyfarfod llwyddiannus iawn gyda'n cynghorwr, Kate Harrison, sydd â phrofiad eang yn yr union beth rydym yn ceisio ei gyflawni. Yn y cyfarfod hwn, dechreuodd Kate y broses o'n harwain trwy gyfreithlondeb a ffurfioldeb y cynnig cyfranddaliadau. Rydym wedi dechrau'r gwaith o ddrafftio ein prospectws cynnig cyfranddaliadau a byddwn yn cyfarfod gyda Kate eto'n fuan.

F. Mae gennym oddeutu £900 yn ein cyfrif cyfredol, ac mae ychydig dros £2,000 yn ein cyfrif gyda Cadwyn Clwyd, felly mae gennym oddeutu £3,000 wrth law. Bydd rhaid i gost lansio a dylunio'r wefan a ffioedd cyfreithiwr ar gyfer trafodaethau prydles ddod o hyn.

G. Bydd y Griffin ar agor ar gyfer Route 76 ar 14 Gorffennaf, - menter a gynhyrchir gan Sian, sydd wedi addo gwneud cyfraniad, os yn llwyddiannus, i gronfeydd y Ganolfan Gymunedol.

H. Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer yr adnewyddu.

7. FFRINDIAU YSGOL LLANBEDR – ADNEWYDDU'R 'ASTROTURF'.

Dosbarthodd y Clerc lythyr i'r aelodau gan "Ffrindiau Ysgol Llanbedr" yn gofyn am gymorth ariannol i adnewyddu'r 'astroturf'. Penderfynodd yr Aelodau na allai'r Cyngor fynd ymlaen hyd nes y gwneir penderfyniad ar ddyfodol yr Ysgol, ac y byddem yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i ofyn a fyddent yn cyfrannu at y diffyg.

8. DIWEDDARIAD Y WEFAN.

Cytunodd y Cyng. Jackie Bird i ddiweddarau gwefan y Cyngor gan ddefnyddio syniadau Constance Atwill fel sail. Bydd y Clerc yn diolch i Constance Atwill am y wybodaeth a ddarparodd ar gyfer diweddarau'r wefan.

9. CYLLID.

A. Cyfrifon banc:-1. Cyfrif Cyfredol £6,032.43.

2. Cyfrif Cadw £9,329.53.

B. Taliadau:-

1. Brenda Jones - cyfieithu cofnodion mis Mehefin - £40.00.

2. Cwrs hyfforddi Un Llais Cymru - £40.00.

10. CAIS CYNLLUNIO.

Cais cynllunio 16/2018/0510 ar gyfer dymchwel yr ystafell haul bresenol ac adeiladu estyniad i'r annedd a gwaith cysylltiedig yn Robin Hill, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Yn dilyn adroddiad gan y Cyng. Nick Smith, ni wnaeth yr aelodau wrthwynebu'r cais cynllunio.

11. GOHEBIAETH.

A. Llythyr gan Gadeirydd Dros Dro "Pwyllgor Cadwraeth Eglwys Hynafol Sant Pedr" ynglŷn â chynnal yr hen fynwent:-

1. Ceisio gwirfoddolwyr newydd i gynorthwyo gyda'r gwaith cynnal a chadw oherwydd y gostyngiad yn y lefel bresennol o wirfoddolwyr – Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i drefnu gwirfoddolwyr newydd.

2. Ceisio cymorth grant tuag at gostau cynnal a chadw gan y Cyngor Cymuned a gan Gyngor Eglwys Blwyfol Llanbedr DC - Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i edrych ar lefel yr arian sydd ei angen.

B. Mae Gardd Gymunedol Llanbedr Dyffryn Clwyd wedi derbyn “Gwobr Gymunedol Baner Werdd 2018/19”. Bydd digwyddiad Dathlu Gogledd Cymru a gynhelir gan Gyngor Conwy ddydd Iau 9 Awst 2018 ym Modlondeb, Conwy. Cytunodd y Cyng. Bob Barton i'r cyswllt rhwng trefnwyr y digwyddiad a'r Cyngor Cymuned ar gyfer y seremoni wobrwyo. Diolchodd yr Aelodau y Cyng. Bob Barton a Ken Tams am eu gwaith caled ar y prosiect.

C. Derbyniodd y Cyngor gopi o Aseidiadau Llecyn Agored a Chasgliadau Archwilio Sir Ddinbych, sy'n cynnwys 'Astroturf' Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniodd y Cyng. Lyn Evans yr adroddiad canlynol gan Gyngor Sir Ddinbych gan y Cynghorydd Sir, Huw Williams:-

A: Mae'r Clwyd Gate yn mynd rhagddo gyda'r ailddatblygu.

B. Tai Fforddiadwy yn gweithio gyda CDLI Sir Ddinbych, Cynllunio, perchnogion tir a datblygwr / Cymdeithas Dai Lleol.

C. Cynigodd fan ar gyfer arwydd yn hybu'r Ganolfan Gymunedol ar ei dir.

D. Cynigodd helpu gydag “Ocsiwn Addewidion” i godi arian at y Ganolfan Gymunedol.

13. MATERION BRYD DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cytunodd y Cyng. Dave Ritchie i gyflwyno manylion ynghylch “Easy Fundraising” i gyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Gofynnodd y Cyng. Jackie Bird i'r gwrych wrth y briffordd ym mhen Lôn Cae Glas gael ei farbio er mwyn i bobl allu gweld yn well. Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i drefnu hyn.

C. Cododd y Cyng. Jackie Bird y materion goryrru ar yr A494 drwy'r pentref. Cytunodd y Cynghorydd Lyn Evans i gysylltu â'r Swyddogion Heddlu Lleol.

D. Hyfforddiant diffibriliwr – Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i drefnu sesiwn hyfforddi.

E. Cylchgrawn 'Link' i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor:-

1. Angen rhywun i fod yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth i'w gynnwys yn y cylchgrawn chwarterol.

2. Dosbarthu'r cylchgrawn – Chris Mayer yn mynd i edrych ar eu rowndiau dosbarthu; angen mwy o bobl i'w ddsbarthu.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 3 Medi 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.